

HYWEL ap Syr MATHEW (bu farw 1581), bardd, achydd, a milwr

Enw: Hywel ap Syr Mathew

Dyddiad marw: 1581

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: bardd, achydd, a milwr

Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant; Milwrol; Barddoniaeth; Ysgolheictod ac Ieithoedd

Awdur: Ray Looker

brodor o ddyffryn Tyfeidiog (Teme) yn sir Faesyfed. Ymhlith ei farddoniaeth ceir cywyddau i'r [esgob Richard Davies](#), [Wiliam Herbert](#), [Iarll Penfro](#), Mathew ap Morus o Geri, Siencyn ap Dafydd o Lanarthne, ac awdl i Lewys Gwyn o Lyn Nedd (Llanst. MSS. [Llanstephan MS 133](#) (71, 712), [Llanstephan MS 30](#) (384), Hafod MS. 13 (197), Brogyntyn MS. 2 (529). Dysgir oddi wrth gopi (diwedd y 16eg ganrif) o'i Hanes Prydain (Pen. MS. 168 (178)) iddo fod yn bresennol yng ngwarchae Boulogne yn 1544. Ymddengys hefyd ei fod yn Babydd selog. Y mae Pen. MS. 138 a rhannau o Cardiff MS. 50 (sef 274-5, 293-356) yn ei law. Defnyddiwyd ei lawysgrifau ef gan [Lewys Dwnn](#) wrth baratoi Pen. MS. 268. Dywedir bod [Rhys Cain](#) a [Lewys Dwnn](#) wedi canmol ei lawysgrifau, a bod yr ail fardd yn ddisgybl iddo. Canodd [Lewys](#) farwnad iddo pan fu farw ar 20 Gorffennaf 1581 (Pen. MS. 96 (371)).

Awdur

Ray Looker

Ffynonellau

H. Blackwell, [NLW MSS 9251-9277A: A Dictionary of Welsh Biography](#)

Edward Jones, [Musical and poetical relicks of the Welsh bards](#) (London 1794), 87

William Owen Pughe, [The Cambrian Biography](#) (1803)

[Reports of the Historical Manuscripts Commission](#), I, ii; II, 1

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Hywel ap Syr Mathew](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q5962777](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

